

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 159

Rhif 39

Medi 24, 2026

50c.

Dathlu 60 mlynedd yn y weinidogaeth

Llongyfarchiadau mawr i'r Parchg Hywel Wyn Richards ar gyrraedd carreg filltir arbennig, sef 60 mlynedd yn y weinidogaeth.



Bu'n weinidog ar ddechrau ei yrfa yn y Ganllwyd, Llanfachreth a Llanelltyd, a Bontddu. Yn ddiweddarach, yn dilyn cyfnod yn Ne Cymru, daeth yn weinidog ar eglwys y Tabernacl, Dolgellau ac yn ddiweddarach eglwys Ebeneser, Dolgellau a chapeli ardal Dinas Mawddwy.



Ar fore Sul, 6 Medi, roedd yn hyfryd cael cwmni'r Parchg Hywel Richards yng nghapel y Tabernacl. Cafwyd pregeth gofiadwy ganddo yn seiliedig ar Philipiaid 4:4-9. Yn dilyn yr oedfa, ymunodd y Parchg Hywel Richards a'i deulu â'r gynulleidfa yn y festri, lle cafwyd paned a chacen arbennig i nodi'r achlysur.

Diolch yn fawr i bawb a fynychodd, i'r rhai a gymerodd ran yn y gwasanaeth, ac i'r rhai a fu'n gweini'r lluniaeth.

Euron Hughes



Llinell Emyr

Un o anafanteision methu ymweld â'r Eisteddfod eleni ydoedd colli cyfle cael copi o'r *Cyfansoddiadau* brynhawn Gwener. Eleni bu rhaid disgwyl tan ddydd Mercher 12 Awst. Amser hir iawn yn arbennig felly wedi gwrando a gwylio Idris Reynolds a chasglu bod yma awdl fuddugol na fu erioed mo'i thebyg yn hanes cystadleuaeth y gadair. I ychwanegu at fy rhwystredigaeth oedd fy adnabyddiaeth a'm hedmygedd o'r bardd a'i deulu a'u cefnogaeth i Felindre, pentref fy mebyd gerllaw. Yn yr ysgol fach yno y cafodd eu plant eu haddysg fore a chofiwn ymdrech lew'r teulu, yn arbennig felly Angharad, i atal ei chau, ond ar waethaf y dycnwch methwyd â chreu 'daeargryn o dan gadarn goncrit Philistia' cyngor dinas a thref. A da gan bobl capel Nebo fydd cael eu cwmni a'u cefnogaeth ac yn ei hystyried yn fraint derbyn englyn Emyr yn cyfarch yr eglwys ar achlysur dathlu deucanmlwyddiant yr achos.



Sylwer ar y dyddiad, 12 Awst. Cyddigwyddiad annisgwyl fu darllen yr awdl a chofio y byddai'r lloer heno yn croesi traws yr haul gan adael ardaloedd y byd mewn tywyllwch ac oerni anamserol. Ac fel y sylwodd Idris, 'daw yr haul eto i deyrnasu gan losgi i ffwrdd hunllfau'r nos a aeth heibio. Yn hyn o beth adleisir yr hen gred mai'r lleuad sy'n gyfrifol am ein cyfnodau lloerig.' Ac yn sicr ddigon y mae'r rhai lloerig wrthi heddiw yn creu byd oer a thywyll. O leiaf felly yr wyf innau, fel eraill, yn ei gweld hi, gan wybod bod Emyr yn deall gwell na neb unwaith mae cerdd wedi ei gollwng o ddwylo'r bardd, yna rhydd i bawb ei ddehongliad ef neu hi ei hunan.

Cofier mai llonydd ydyw'r trên a'r teithiwr yn tybio wrth adael y caiff ymwared o'r hunllfau gan anelu am y

parhad ar dudalen 2

Llinell Emyr – parhad

‘Tŷ Mawr’. Beth tybed yw arwyddocâd y lle hwnnw a phwy yw ei breswylwyr? Rhydd inni ddyfalu, ond gwelwn mai byrhoedlog yw ei obeithion a da ganddo ddianc a dychwel i’w drên. Yno daw cyffyrddiad llaw cydymaith i’w ddeffro a pheri i’r hunllefau ddiiflannu. Ond pwy yw’r cydymaith? Ei gymydog? Ei gariad? Hoffwn gael dweud yn syml mai Llaw Cariad ydyw. Llaw heddweh, y Llaw sydd yn gwasgar ein hofnau i gyd.

Y Llaw wen dirion rhagor na llaw goch greulon y lloerig. Dichon y daw eraill eto i ledi dioddefaint a dinistr, ond daw hefyd rywrai i’w herio a dangos iddynt ‘ffordd dra rhagorol’ a gobaith adnewyddol. Dyna i mi neges gadarnhaol y llinell glo: ‘Mae trannoeth. Mae trueni’.

Y mae’r ychydig sylwadau hyn ymhell o wneud cyfiawnder â’r awdl ryfeddol hon. Nid yw ond tamaid i aros pryd a themtio eraill i ddod at y wledd. Yn Eisteddfod Pen-y-bont, 1998 braint i mi ydoedd fy ngwahodd i gyfarch Emyr bardd y goron. Ei ffugenw yno ydoedd ‘Ba’. Yn Llantwd dewisodd ‘A’. Yn awr unwn oll i roddi iddo ‘A seren’.

Meirion Evans

Llanfihangel Bachellaeth

Er nad ydyw ond cwta dair milltir o gapel Horeb, Mynytho, lle bûm yn weinidog am flynyddoedd, unwaith neu ddwy yn unig y bûm ar gyfyl hen eglwys fechan Llanfihangel Bachellaeth. Ond y dydd o’r blaen oedd y tro cynta i mi oedi ennys yno; y ‘lle tawela’ ngwlad Llŷn’ chwedl Cynan. Ond nid y tawelwch y sonia’r bardd amdano a’r trawodd. Nac hyd yn oed banorama’r olygfa odidog ac annisgwyl oddi ar fryncyn uwchlaw’r eglwys, yn ymestyn o Gaergybi i’r gogledd ac ymhell dros Fae Ceredigion i’r de. Am y tro cyntaf o bosib, mi sylwais ar rywbeth arall y cyfeiria’r gerdd ato: ‘holl fryniau bach Llŷn’. Oherwydd er gwaetha’r degawd o esgyn a disgyn rhwng Abersoch a Mynytho, mi fûm yn dal syniad am benrhyn Llŷn fel gwlad wastad ac iddi, ar y mwyaf, ond dau neu dri o fryniau.

Y mae i’r darn hwn o dir lawer mwy o ddringo nag a sylweddolais. Ac mae’n debyg bod y ffaith na wawriodd hynny arnaf yn dangos cyn lleied o grwydro’r ardal a wneuthum dros y deng mlynedd y bûm yn byw yno. Y gwir amdani ydi fy mod wedi gweld mwy ar y penrhyn, y tu hwnt i filltir sgwâr fy ngofalaeth, ers i mi fudo oddi yno.

Ac mi fedrwn rhywsut fod yn agos at yr Efengyl, ond heb ei gweld na’i gwerthfawrogi. Mi fedrwn fod yn ei sŵn, ond heb ei chlywed na’i deall. Mor rhwydd ydi ei chamddeall yn llwyr gan mor dueddol ydym o feddwl mai tiroedd

gwastad ein hymwneud â’n gilydd ydi ei man cychwyn a’i chanolbwynt. Mor beryg ydi credu mai swm a sylwedd Efengyl Iesu Grist ydi’r alwad i bobl garu ei gilydd, a meithrin egwyddorion Cristnogol fel cymwynasgarwch a chymod a chyfiawnder. Mor aml y meddylir amdani fel newyddion da am ffordd ragorach o fyw.

Ond nid y tiroedd gwastad hyn ydi ei tharddiad na’i phrif lwyfan. Mae’r Efengyl yn tarddu o diroedd uwch o lawer. Nid neges am ymwneud pobl â’i gilydd mohoni, ond neges am ymwneud Duw â ni. Nid neges ddaearol, ddynol. Nid hyd yn oed neges a luniwyd gan Iesu Grist, y dyn perffaith a ddaeth yn athro ac arweinydd i’w bobl. Y newyddion da am Dduw yn caru’r byd gymaint nes rhoi ei Fab Iesu i farw trosom ar Galfaria ydi hi. Ac yn syml iawn, y cam cyntaf at ei gwerthfawrogi’n llawn ydi bod ein llygaid yn cael eu hagar, a’n golwg yn cael eu hoelio ar diroedd uwch ymwneud trugarog Duw â ni.

John Pritchard

(Allan o Llais Bro Aled, 6 Medi 2026)



Cydymdeimlad

Bu farw Rhys Ifor Jones, mab y Parchg R. Ifor a Rhian Jones, Bae Colwyn. Roedd Rhys yn ŵr i Sally ac yn dad i Catrin a Ben, hefyd yn frawd i Huw. Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf â’r teulu yn eu profedigaeth fawr.



Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

MODIWL

Y SACRAMENTAU

Cynhelir y modiwl uchod dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall ar y dyddiadau isod:

Nos Lun, 7 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 14 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 21 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 28 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 5 Hydref	7:30 – 9:00	Zoom
Dydd Llun, 12 Hydref	10:00 – 3:00	Aberystwyth

Bydd y modiwl yn cynnig cyfle i ofyn ‘beth yw sacrament?’, edrych ar sylfeini Beiblaidd y sacramentau, ein dealltwriaeth ohonynt, a’r wedd ymarferol a berthyn iddynt.

I gofrestru, cysylltwch â’r Parchedig Carwyn Siddall: carwyn@annibynwyr.cymru

Croeso cynnes i bawb



Dathlu 200 Ebeneser Caerdydd

3ydd Hydref 2026



10.00 –
Cychwyn cerdded
o Womanby Street i
Canolfan Cornerstone.



Neu gallwch
ymuno gyda ni yn
Cornerstone
am 10.30.



Ebeneser
CAERDYDD

Rhowch eich enwau i
Gwenda a Gill

Cyhoeddi Cyfrol Olaf *Gofal ein Gwinllan*



Mae'r bedwaredd gyfrol, a'r olaf, mewn cyfres sy'n archwilio cyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i lenyddiaeth, hanes a diwylliant newydd ei chyhoeddi gan wasg y Lolfa.

Ers 2021, mae sawl cyfres o seminarau ar-lein wedi archwilio cyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'n llenyddiaeth, ein hanes a'n diwylliant fel Cymry Cymraeg. Mae'r gyfrol hon, *Gofal ein Gwinllan 4*, a olygwyd gan A. Cynfael Lake a D. Densil Morgan yn cynnwys traethodau penigamp sy'n cyd-fynd â'r seminarau.

Meddai'r Parch. Ganon Ddr Ainsley Griffiths, Cyfarwyddwr Ffydd, Trefn ac Undod gyda'r Eglwys yng Nghymru ac un o sylfaenwyr y gyfres o seminarau:

Braf yw cael cyhoeddi'r bedwaredd gyfrol yma. Mae'r seminarau wedi bod yn brosiect sylweddol a dadlennol sydd wedi dwyn i'r golau nifer o gymeriadau a chyfraniadau a fu'n anhysbys i'r mwyafrif. Mae'r pedair cyfrol yn sicrhau cofnod ysgrifenedig parhaol o'r hyn a gyflwynwyd, gyda'r gobaith y bydd yr ysgolheictod clodwiw yn ysgogi mwy o ddiddordeb yn y maes hwn ac yn sbarduno ymchwilwyr y dyfodol.

Yn ei rhagair i'r gyfrol, dywed y Tra Pharchedig Ddr Manon Ceridwen James, Esgob Bangor:

Yn ôl yr Athro Densil Morgan, mae'r Eglwys yng Nghymru yn ffynnu pan fydd yn cydnabod ac yn meithrin ei hunaniaeth Gymreig unigryw. Gobeithiaf, felly, bydd y gyfrol hon, ynghyd â'r holl gyfrolau eraill



yn y gyfres a'r darlithoedd cysylltiedig, yn gymorth i ni ddathlu ac i ddyfnhau ein dealltwriaeth o'r hunaniaeth arbennig honno.

Yn y gyfrol hon, trafodir rhai o'r ffigyrau a fu'n cynnal Cymreictod yr Eglwys yng Nghymru o ganol teyrnasiad y Frenhines Fictoria hyd at ddegawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif. Yn eu plith ceir clerigwyr a llyegwyr, cerddorion a golygyddion, haneswyr ac ysgolheigion, Ucheleglwyswyr ac efengyleiddwyr, offeiriad plwyf diwyd a rhai o ddeoniaid yr eglwysi cadeiriol ynghyd â dau esgob. Mae'r penodau'n dystiolaeth i'r bywiogrwydd a ddaeth i nodweddu Anglicaniaeth Cymru fwyfwy o ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, a'r ymgyrch gynyddol gynhennus i ddatgysylltu a dadwaddoli'r pedair esgobaeth a'u gwahanu oddi wrth Eglwys Loegr yn gefnlen i'r cwbl.


Bydd y gyfres ar ei hyd wedi cynnwys 55 o benodau yn olrhain cyfraniad yr Eglwys yng Nghymru i'r Gymraeg, ei llên a'i diwylliant, o adeg *Kynniver Llith a Ban*, sef cyfieithiad William Salesbury o lithiau'r Testament Newydd yn 1551, hyd at sefydlu'r Eglwys yng Nghymru fodern yn 1920. Rhwng y cwbl, mae'n gyfraniad sylweddol at ddeall a gwerthfawrogi traddodiad pwysig yn hanes y genedl.

Lansiwyd *Gofal ein Gwinllan 4* ar faes Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las gyda Dr Dewi Alter, y Barchedig Ganon Ddr Rosie Dymond a'r Parchedig Athro D. Densil Morgan yn cloriannu'r cyfraniad a wnaethpwyd drwy'r fenter hon ers ei dechreuad yn 2021.



Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26



Codi'r Llen 36

Ymson y wraig yn Endor

Teimlais ei bryder cyn imi weld ei wyneb cuddiedig. Newidiodd ei lais hefyd fel na allwn ei adnabod. Roedd pwys ei galon yn rhy drwm i'w anwybyddu. Gwyddwn ei fod wedi dod i mewn i fy nghartref liw nos i gael ei oleuo.

Chwarddais yn ei wyneb! Ro'n i am iddo ddeall mor annoeth ydoedd yn dod ataf. Wrth edrych i fyw ei lygaid, sylwais ar yr angen dybryd ynddo a'r ysfa am gael gweld yfory. Ond onid oedd hwn yn dal i wrthod yr Un sy'n dal pob yfory?

Yna, gofynnodd imi alw ar enaid Samuel. Ac ymhen munud neu ddwy, fe'i gwelais, yn codi o'r ddaear ac yn dod atom i'r ystafell.

Daeth yr ymwybyddiaeth imi wedyn mai Saul oedd wedi dod i fy nghartref a chwarae'r tric hwn arnaf. Gwaeddais arno'n uchel i'w esbonio'i hun; ond doedd dim rhaid iddo ateb, oherwydd roedd yn amlwg mai cuddio rhagddo'i hun yr oedd e.

Siaradodd ysbryd Samuel wedyn, a'i lais yn ysgwyd y muriau. Er fy mod i wedi arfer codi eneidiau, doeddwn i byth yn siŵr beth fyddai'n digwydd. Y tro yma, doedd dim trysorau newydd ymhlyg yn y geiriau, dim twnnel i gropian drwyddo, na gobaith i wreiddio ynddo. Trawyd Saul gan y geiriau: daeth clatsien ar ôl clatsien, a chlusten wedyn, nes ei fod yn syrthio i'r llawr.

Deallais innau, drwy'r cernodau cytseiniol a ddaeth drwy Samuel,

sut yr oedd Saul wedi troi ei gefn ar Dduw. Collodd bopeth – ei deyrnas, ei urddas, a'i dawelwch meddwl. Ac yna daeth y trawiad olaf mai yfory fyddai'r heddiw olaf iddo.

A'i wyneb ym mhridd y llawr, a'i gorff truenus yn ei blyg, fe ddaeth yn amlwg fod Saul yn tynnu tua'r terfyn. Doedd dim ar ôl i'w gynnal, neb yn gafael yn ei freichiau a'i godi i fyny. Nid fy lle i oedd deall pam na fyddai'n gofyn am faddeuant, pam na fyddai'n codi ei olygon ac yn edrych ar ei Dduw. Wyddwn i ddim oll am ei resymeg, ond fe allwn weld nad oedd owns o faeth ar ôl ynddo. Felly, penderfynais wneud yr hyn a allwn. Pobais fara, a pharatoi pryd o fwyd yn hytrach na phryd o dafod. Hwn fyddai'r olaf, gwyddwn hynny.

Roedd Saul eisiau sicrwydd, ond fe grwydrodd yn rhy bell oddi wrth y Golau mwya'n bod. O flaen fy llygaid, gwelais y gagendor mawr rhwng dyn a Duw: Duw yn disgwyl i ddyn droi ato, a dyn yn ei blyg yn y budreddi. A'r noson honno, fe ddysgais rywbeth nad oeddwn eto wedi'i lawn sylweddoli: nad y perygl mwyaf yw fod nefoedd yn anweledig, ond bod y person sy'n dyheu am nefoedd yn methu edrych ar ei Dduw.

Holi

- Roedd Saul yn ysig, ond nid yn ysu am Dduw. Ydyn ni hefyd weithiau'n ceisio atebion neu'n ceisio rheoli cwrs bywyd heb alw ar arweiniad Duw?
- Syrthiodd Saul yn gorfforol ac yn feddyliol, ond nid mewn edifeirwch. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng bod yn doredig a throi'n ddiffuant tuag at Dduw? Pa gamau y dylai Saul fod wedi'u cymryd i fynd ag e 'nôl at Dduw?
- Ciliodd Saul ymhell cyn ymweld â'r wraig yn Endor. Pa rybuddion sydd yn y stori am y perygl o gilio'n raddol, yn ysbrydol ac yn ymarferol? Pa arferion allwn ni eu datblygu er mwyn closio at Dduw?
- Ni allodd y wraig wneud dim i newid ei ffawd; serch hynny, gwnaeth yr hyn a allodd i helpu Saul. Pa weithredoedd o gariad a thosturi all fod o gymorth i'r colledig yn ein cymunedau heddiw?
- Mae pwysigrwydd y neges fod angen inni ddal ati yn ein hymlyniad at Dduw yn amlwg. Sut y gall yr egwyddor siapio ein hymatebion i ansicrwydd ein hoes, i weddiâu heb atebion, i benderfyniadau anodd, ac ofn y dyfodol?

Gweddï

Pan ddaw ofn fel cwmwl drosom,
tyrd â'th enfys i'n lliwio.
Pan fydd tywyllwch y nos yn sibwrdd,
dyro ffydd i oleuo ystafell ein meddyliau.
Pan fyddwn yn dyheu am dy lais,
boed inni glywed symffoni dy gariad yn atseinio ynom.
Pan fo yfory yn bell,
dere Di â ni i'th gôl.
Pan fo pwysau byw yn ein blino,
llifeiria dy egni dwyfol drosom.
Gofynnwn, diolchwn,
a rhoddwn glod i Ti. Amen.

Siân Meinir



Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 27 Medi 2026

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 27 Medi, am 7:30yb a 4:30yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Marc Jon Williams, Caerdydd

Oedfa Radio Cymru
Sul, 27 Medi, am 12:00yp
Oedfa o dan arweiniad Hefin Jones, Caerdydd

S4C
Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 27 Medi, am 7.30yh
Bydd Rhodri Gomer yn edrych ymlaen at Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn Meirionnydd 2027. Daw y canu o Ganolfan MOMA, Machynlleth.

Diogelu: Newidiadau Pwysig

Neges bwysig oddi wrth y Panel Diogelu Cydenwadol sy'n berthnasol i bob eglwys sy'n cynnal gweithgareddau plant neu ieuenctid.

Newidiadau i'r diffiniad o weithgaredd a reoleiddir (Regulated Activity) gyda phlant o 1 Medi 2026

O 1 Medi 2026 ymlaen, bydd gweithwyr neu wirfoddolwyr sy'n addysgu, yn goruchwyllo, yn arwain neu'n gofalu am blant yn aml neu'n ddwys (yn wythnosol, bedair gwaith neu fwy mewn 30 diwrnod, neu dros nos rhwng 2am a 6am) mewn gweithgaredd a reoleiddir gyda phlant, p'un a ydynt yn cael eu goruchwyllo ai peidio.

Ni fydd y rheolau yn newid ar gyfer y rhai sydd eisoes mewn gweithgaredd a reoleiddir oherwydd eu bod yn darparu gofal personol. Bydd y rhai sy'n gweithio'n anaml yn aros mewn gweithgaredd nas rheoleiddir, oni bai eu bod yn gwneud gofal personol gyda phlant.

Mae'r Panel Diogelwch yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd eglwysi'n cydymffurfio â'r newid hwn, ond rydym yn annog eglwysi i ddarllen y daflen berthnasol am ragor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am sut y gallai hyn effeithio ar eich eglwys:

<https://panel.cymru/cy/newyddion>

ADIOGELU
yn yr Eglwys hon
...rydym o ddifrif

Os oes gennych bryderon am blentyn neu oedolyn bregus neu angen cymorth, cyngor neu wybodaeth :



**Panel Diogelu Cydenwadol**
Interdenominational Safeguarding Panel
01745 817584 / 07957 510346
post@panel.cymru
tu allan i oriau swyddfa (ac ar benwythnosau)
galwch llinell gymorth thirtyone:eight
0303 003 1111
thirtyone: eight
Creating safer places. Together.

MEWN ARGYFWNG : GALWCH 999

Evch i wefan y Panel am fwy o wybodaeth neu defnyddiwch y cod QR i adrodd am bryder
<https://panel.cymru>



Newyddion Cynnal, Gwasanaeth Cyngori Eglwysi Cymru



Ar hyn o bryd, mae Cynnal yn darparu cwnsela un-i-un yn rheolaidd i 37 o glerigion, gweinidogion, gweithwyr Cristnogol ac aelodau o'u teuluoedd. Ar gyfartaledd, drwy gwnsela, grwpiau therapi ac ôl-ofal, mae tua 138 o unigolion yn derbyn cymorth bob mis. Ers sefydlu Cynnal yn 2015, mae bron i 300 o glerigion, gweinidogion, gweithwyr Cristnogol ac aelodau o'u teuluoedd wedi derbyn cymorth drwy'r gwasanaeth.

Mae gweinidogaethu yn dwyn pwysau emosiynol, ysbrydol a seicolegol unigryw. Mae llawer o weinidogion yn byw gyda'r disgwyliad eu bod bob amser ar gael, yn wydn, ac yn gryf yn ysbrydol. Eto i gyd, y tu ôl i'r llenni mae llawer yn wynebu gorflinder, gorbryder, iselder, trawma, unigedd a straen teuluol.

Isod mae ymateb rhai gweinidogion:

- 1 "Mae fy sesiynau gyda Cynnal wedi fy achub yn ystod amser mwyaf anodd a thywyll fy mywyd. Yn aml iawn, mae gwybod bod sesiwn ar y gorwel yn ddigon i'm cario drwy'r wythnos."
- 2 "Heb gymorth a chefnogaeth Cynnal, ni fyddwn yn fyw heddiw, heb sôn am fod yn y weinidogaeth. Rwyf bellach yn ffynnu gyda ffocws a gwydnwch newydd."
- 3 "Trwy Cynnal, rwyf wedi derbyn iachâd o glwyfau oedd yn ddegawdau oed."
- 4 "Nid yn unig y bu'r gefnogaeth hon yn help personol mawr i mi, ond mae hefyd yn golygu bod gan un ardal yng Nghymru weinidog hyd heddiw."
- 5 "Heb CYNNAL, mae'n debyg y byddem wedi dod yn deulu clerigol arall wedi'i dorri. Mae ein plant yn ffynnu, mae fy ngwraig yn ffynnu, ac rwyf finnau yn parhau mewn gweinidogaeth amser llawn."

Mae'r tystiolaethau hyn yn dangos nad unigolion yn unig y mae Cynnal yn eu cefnogi. Mae'n cynnal gweinidogaethau, priodasau, teuluoedd, eglwysi a chymunedau. Mae gweinidogion iach yn adeiladu eglwysi iach. Mae pob gweinidog sy'n gallu parhau mewn gweinidogaeth effeithiol oherwydd ymyrraeth amserol yn parhau i ddarparu gofal bugeiliol, arweinyddiaeth gymunedol, cymorth mewn profedigaeth, gwaith caplaniaeth, cyfrifoldebau diogelu, cyfleoedd gwirfoddoli a gofal ysbrydol i gannoedd o bobl. O ganlyniad, mae buddion Cynnal yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r unigolion sy'n derbyn cymorth ac yn cyrraedd cymunedau ledled Cymru.

Cysylltu: www.cynnal.uk

Cadw'n ddiogel

Fe'i ganed yn Halifax yn 1890 – un o bymtheg o blant. Gadawodd Ysgol Fwrdd Boothtown yn 13 oed a gweithio gyda'r prif ddiwydiannau lleol yn Halifax, gan gynnwys tecstilau, peirianwaith a chynhyrchu offer peiriant. Ymunodd â'i dad yn ddiweddarach i weithio mewn gweithdy offer peiriant yn agos at gartref y teulu. Erbyn 1930 roedd wedi dechrau gweithio fel contractwr ffordd a chychwyr ei fusnes ei hunan a chyflogi ei weithwyr ei hunan.


Ffordd droellog

Yn aml roedd e'n gyrru 'Doris', ei Ford Model T 1916 ar y darn o'r ffordd droellog rhwng Queensbury, pentref yn Bradford, a Boothtown, maestref yn Halifax. Roedd disgyniad eithaf serch ar un ochr y ffordd. Roedd yr unig olau ar y ffordd yn y nos yn dod o'r trac tramiau y dywedodd ef ei hun ei fod yn disgleirio 'fel rhubanau arian deublyg' ac yn gweithredu fel canllaw ar y ffordd. Un noson niwlog pan oedd e'n gyrru heibio ar yr un ffordd gwelodd gath, yn eistedd ar ffens a sylwodd sut roedd ei llygaid yn treiddio trwy'r tywyllwch. Darparodd y trac tramiau a llygaid y gath syniad iddo am stydiau ffordd adlewyrchol. Fe dderbyniodd ei ddyfais batent fel Llygaid Cath yn 1934 a sefydlodd ei gwmni, Stydiau Ffordd Adlewyrchol yn 1935.

Llygaid y nos

Llygaid cath yw conglaen diogelwch y ffordd yn y Deyrnas Unedig. Maen nhw'n

eu gwneud hi'n haws i yrwyr weld y ffordd o'u blaen. Maen nhw'n arbennig o ddefnyddiol yn y tywyllwch mewn niwl neu ynghanol tywydd stormus glawog. Maen nhw'n eich lleoli chi ac yn eich helpu i weld ble rydych chi ac i ble rydych chi'n mynd. Maen nhw'n eich arbed rhag gwyro ar y dde ac ar yr aswy law. Ac i bwy mae'r diolch am y ddyfais i'n helpu i deithio o le i le? Wel, y gŵr hwnnw o Halifax, Percy Shaw.



Llygaid y gath

Mae dyluniad llygaid cath wedi esblygu dros amser, gan gynnwys deunyddiau a thechnolegau datblygedig i wella eu heffeithiolrwydd a'u gwydnwch. Mae presenoldeb llygaid cath ar y ffordd yn dyst i gynhyrchiant a rhagwelediad peirianwyr fel Percy Shaw. Cafodd Percy ei wobrwyo gyda'r OBE yn 1965 a bu farw ar 1 Medi 1976, sef hanner can mlynedd yn ôl i'r mis hwn. Diolch iddo am y ddyfais fwyaf disglair a gynhyrchwyd erioed i wella diogelwch ffordd.

Gwyro

Ond un peth yw teithio'n ddiogel ar y ffordd fawr. Mae angen diogelwch arnom wrth deithio ar ffordd bywyd hefyd. Pam, meddech chi? Mae'r rheswm gan Bantycelyn yn un o'i emynau enwocaf. Meddai ef:

Pererin wyf mewn anial dir,
yn crwydro yma a thraw...
Mi wyraf weithiau ar y dde
Ac ar yr aswy law...

Mae'n bwysig bod ystyr a phwrpas i bob taith, gan fod crwydro'n ddiamcan yn gwbl offer ac yn wastraff ar amser ac ynni. Mae'r emynydd yn ceisio help:

Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, ledia'r ffordd,
Bydd imi'n niwl a than
Ni cherdda' i'n gywir hanner cam
Oni byddi di o'm blaen.

'Myfi yw y ffordd', meddai Iesu. Mae'n dangos y ffordd i ni, mae'n cydgerdded â ni. Nid ein tywysydd yn unig yw e ychwaith. Ef ei hun yw'r ffordd, y ffordd i'r nef. Y ffordd i fywyd ystyrllon. Y ffordd i ganfod ein galwedigaeth, ein pwrpas.

Ffordd newydd wnaed gan Iesu Grist
I fyned heibio uffern drist;
Hon a gysegrwyd ganddo Ef
O ganol byd i ganol nef.

Ie, diolch i Percy Shaw am ein tywys yn ddiogel ar hyd y ffordd fawr ond diolch yn fwy i Iesu am addo ein tywys ar hyd y ffordd i fywyd tragwyddol.

(Allan o'r *Ddolen*, gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin Rhifyn 5, Medi 2026.)

Cyfundeb De Ddwyrain Cymru

Ymrwymo i Fywyd

Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr

Medi 27, 2026 – 10yb-12yp

Gweithy Pum Peth Personol
dan ofal
Fiona Gannon

Gweithdy Eco Eglwys
dan ofal
Delyth Higgins

Addangosfa celf gan artist lleol
David Robinson

Gweithgareddau i blant ac ieuenctid

Amserlen

- 10:00yb – Paned a Chymdeithasu
- 10:30yb – Addoliad
- 10:45yb – Pum Peth Personol
- 11:00yb – Gweithdai amrywiol
- 11:45yb – Y Fendith ac ymadael

Gwreiddio'n gobaith yng nghreadigaeth Duw

Bydd darpariaeth cyfieithu ar y pryd.

Croeso cynnes i bob un

Cyfundeb Gorllewin Morgannwg

Sul y Cyfundeb

Bore Sul, 27 Medi 2026
am 10.30 o'r gloch

Ebeneser, Brynmanan SA18 1TF

Oedfa o Fawl

Dewch i ganu mawl i gyfeiliant band pres

Cyflwynir emynau gan rai o eglwysy'r Cyfundeb

Darperir lluniaeth

Cyngerdd coffa

Meirion Williams

Capel Cymreig y Boro
90 Southwark Bridge Rd. Llundain SE1

Nos Sadwrn 3ydd Hydref 2026

7pm

Er budd hosbis plant

Tŷ Hafan

Tocynnau ar gael trwy:
<https://wegottickets.com/event/693992/>

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:
John Jones
07770 268169 | johnjones.calan@gmail.com

Cerddoriaeth sy'n parhau

Barn Annibynnol

Trwy'r to

Oes croeso i bobl anabl yn eich eglwys chi?

Tuedd rhywun yw ateb yn reddfodol 'Oes, siŵr! Mae croeso i bawb!' Ond efallai nad yw hi mor syml â hynny. Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae anabledd yn 'amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar allu rhywun i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.' Mae hynny'n cwmparu llawer iawn o gyflyrau sy'n effeithio ar bobl mewn lluo o wahanol ffyrdd ac i wahanol raddau. Gallai gostio miloedd llawer o bunnoedd i wneud capel yn addas ar gyfer pob anabledd posibl ac mae'n siŵr na fyddai neb yn disgwyl i eglwys gyffredin osod lifft, dyweder, rhag ofn y byddai ar rywun ei angen ryw dro yn y dyfodol. Ond gall eglwys hwylyso bywyd pobl anabl am ddim neu heb fynd i gostau mawr.

Byddwch ymarferol

I ddechrau, byddwch yn onest ac yn ymarferol. Os oes rhywun yn gofyn a yw'ch capel yn hwylyso i gadair olwyn, peidiwch ag ateb 'Ydi, siŵr', a gobeithio'r gorau! Dw i'n defnyddio cadair olwyn oherwydd MS a fwy nag unwaith, dw i wedi cael sicrwydd bod capel yn hygyrch er nad yw. Efallai nad oes stepiau ond bod corneli tynn neu lwybrau cul neu ddim unman i eistedd yn y gadair. Ar ôl clywed y bydd lle cyn hwylyso i chi eistedd, mae'n siom canfod trefniant blodau neu daflunydd yn y man hwnnw a chithau'n gorfod eistedd yn yr ale gan flocio llwybr pawb!

Tŷ rhy fach

A thoileadau! Os oes gennych doiled hygyrch, gofalu ei fod yn ... hygyrch!

Mae angen llwybr clir i'w gyrraedd, drws sy'n agor am allan neu'r ddwy ffordd, bariâu codi ar y ddwy ochr wedi'u gosod ar bellter ac uchder call fel y gallwch eu cyrraedd a rhoi'ch pwysau arnynt. A pheidiwch â llenwi'r lle â bwcedi a mops ac ati – mae angen lle i fanwro! Os nad oes gennych doiled hygyrch pwrpasol, gallwch brynu ffrâm yn cynnwys sedd uwch a handlenni i afael ynddyn nhw i godi. Weithiau, os oes gennych step neu ddwy, gallwch brynu ramp cludadwy. Ond mae angen gofal mawr wrth ddewis a gosod y rhain.

Dweud o brofiad

Tipyn o 'mhrofiad i yw hynna ond mae anghenion pobl ag anableddau eraill yn hollol wahanol. Er enghraifft, mae effeithiau awtistiaeth yn amrywiol iawn ond dyma rai awgrymiadau a all fod o gymorth wrth groesawu pobl awtistig i addoli gyda chi.

- Mae'n help mawr i bobl awtistig wybod beth i'w ddisgwyl. Gall gwybodaeth ar wefan yr eglwys, gyda lluniau neu fideo, fod yn fuddiol yn enwedig cyn eu hymweliad cyntaf. Gall gweld trefn y gwasanaeth neu gael esboniad clir ar y dechrau fod o gymorth yn enwedig gyda threfn y cymun, er enghraifft.
- Weithiau, dydi pobl awtistig ddim yn hoffi i rywun gyffwrdd â nhw. Gall ysgwyd llaw neu gofleidio eu gwneud yn anghysurus iawn.
- Gall gorlwytho synhwyraidd (sensory overload) fod yn broblem i bobl awtistig. Rhoch rybudd clir os bwriedir defnyddio goleuadau sy'n llachar neu'n fflachio, neu sŵn uchel neu sydyn. Ceisiwch drefnu lle tawel lle gall person awtistig gymryd saib os oes gormod o olau, sŵn neu gyffro.
- O ganlyniad i orlwytho synhwyraidd gall person awtistig gael 'melt-down' 'neu shut-down'. Mewn plant, caiff hyn

ei gamddehongli'n aml fel tymer ddrwg neu sterics. Mae'n bwysig sylweddoli nad dyna sy'n digwydd a pheidio â barnu, ond rhoi cyfle iddynt ymdawelu.

- Gall sefyllfaoedd cymdeithasol fod yn flinedig i bobl awtistig. Cymerwch amser mewn lle tawel i eistedd a dod i nabod eich gilydd, ac i ddarganfod pa ddoniau yr hoffent eu rhannu ag eraill.



Seilir yr awgrymiadau uchod ar erthygl ar wefan yr elusen Through the Roof sy'n gweithio i alluogi pobl anabl i chwarae rhan lawn ym mywyd eu heglwys a'r bywyd Cristnogol yn ehangach ac i ddefnyddio'u doniau er gogoniant Duw.

Sul Ymwybyddiaeth

Mae'r Sul yma, 27 Medi, yn Sul Ymwybyddiaeth o Anabledd ac mae gan Through the Roof amlinellid o oedfa (yn Gymraeg) ac adnoddau eraill i godi ymwybyddiaeth o gyfraniad pobl anabl i'r eglwys. Mae ar gael o <https://throughtheroof.org> neu trwy gysylltu â mi sian.roberts@btinternet.com. Ysgrifennwyd defnyddiau Sul Ymwybyddiaeth o Anabledd eleni gan Triona Brading, Cristion ifanc ag awtistiaeth ar y thema 'Un Corff, Llawer o Aelodau', yn seiliedig ar 1 Corinthiaid 12:12–27, sy'n cloi â'r geiriau: 'Yn awr, chwi yw corff Crist, ac y mae i bob un ohonoch ei le fel aelod.' Mae gan Through the Roof adnoddau eraill hefyd, rhai Cymraeg, i'w gweld ar eu gwefan. Gobeithio y bydd hyn o rywfaint o help i chi wrth ystyried y cwestiwn 'A oes croeso i bobl anabl yn fy eglwys i?'

Siân Roberts

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

Llongyfarchiadau

I'r Parchg Gwilym Tudur ac Alex, ei wraig, ar achlysur genedigaeth eu plentyn cyntaf sef, Arthur Dragos Iwan Tudur. Pob bendith i'r teulu a chroeso mawr i Arthur.

I.L.J

SEMINAR ARBENNIG YN SARON

gyda Korea Church Cymru

**DYDD GWENER
2 HYDREF 2026**

7:00YH

**SARON
CRYNANT, SA10 8NT**

Cwblhaodd y Parchedig Young Chul Lee ei astudiaethau diwinyddol yng Nghorea ac enillodd Ddoethuriaeth mewn Gweinidogaeth (D.Min.) gan Regent University, yr Unol Daleithiau.

Mae ganddo dros 30 mlynedd o brofiad fel gweinidog ac mae wedi bod yn ymwneud ag adeiladu ysgolion ac eglwysy ar draws Asia, Affrica a Uganda.

Bydd y Parchedig Lee yn rhannu syniadau ymarferol a ffyrdd o rannu ein ffydd ag eraill ac annog ein cynulleidfaoedd i dyfu, gan ddefnyddio'r hyn y mae'n ei alw'n "Dull Efengylu Pont 3 Munud". Mae 9 allan o bob 10 o bobl wedi dod i ffydd newydd yn Iesu Grist drwy'r dull hwn.



Mae'r Parchedig Jacob a Sookie o Eglwys Thornhill, yr oeddem wedi cael y fraint o ymweld â hi, wedi gofyn i Saron gynnal y noson arbennig hon.

Byddai'n hyfryd rhoi croeso cynnes iddynt ac i'n ffrindiau o'r eglwys Corea.



Bydd y seminar hwn o fudd i holl aelodau eglwysy, arweinwyr eglwysig ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn rhannu ei ffydd.

*Mae croeso cynnes i bawb –
dewch i ymuno â ni!*



**PLEASE DIARY THE DATE: FRIDAY 2ND OCTOBER AT 7PM
CADWCH Y DYDDIAD YN EICH DYDDIADUR: DYDD GWENER, 2 HYDREF AM 7:00YH.**

We look forward to welcoming you to Saron! | Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Saron!

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur

39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS

Ffôn: 02920 490582

E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones

Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE

Ffôn: 01766 513138

E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny

Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX

Ffôn: 01267 232577 /

0781 751 9039

E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc

Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ

Ffôn: 01792 795888

E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Data'n datgelu'r dirywiad

Sylwadau personol sydd gen i yma wrth gymharu'r data yn *Llyfr Gwyn* yr Undeb am ystadegau capeli ac aelodaeth yn 1975 a 2025.

Ni allwn wadu na fu'r hanner can mlynedd diwethaf yn gyfnod o leihau sylweddol iawn o ran nifer y capeli cynulleidfaol (Annibynol) yng Nghymru ac fel dwi'n tybio ymhlith y prif enwadau ymneilltuol eraill fel y Bedyddwyr a'r Eglwys Bresbyteraidd (y Methodistaidd Calfaidd) yn arbennig.

Fel y gwelir yn fy nadansoddiad o'r *Llyfr Gwyn* ar gyfer 1975 a 2025, mae'r lleihad yn nifer yr aelodau o 76,995 lawr i 13,002, sef lleihad o 63,993. Y lleihad canrannol yw 83% sydd llawer mwy brawychus na'r gostyngiad yn nifer yr eglwysy sydd lawr o 620+ i tua 319, lleihad o 301 sef 49%). Dwi wedi dewis canolbwyntio ar y newidiadau yn nifer yr aelodaeth mewn pedwar ardal ble bwm yn byw.

Gibea, Brynman a Bethania, Rhosaman

Cefais fy ordeinio a'm sefydlu yn weinidog cyflogedig ym mis Gorffennaf 1974 yn Gibea, Brynman (477 aelod) a'r ferch eglwys Bethania, Rhosaman (200 o aelodau). Mae'n drist iawn gennyf

gydnabod na chynhelir gwasanaethau yn Gibea ers misoedd bellach, er nad yw'r eglwys wedi ei ddatgorffori yn swyddogol hyd yma.

Roedd yr ofalaeth newydd hon a ffurfiwyd ym 1974 ymhlith y mwyafrif niferus o ran yr enwau yn ôl yr adroddiadau blynyddol (cyfanswm o 677 aelod). Gan mai capel Bethania, Rhosaman yn unig sy'n parhau i gynnal oedfaon ar y Sul gydag aelodaeth o 24 mae'r gostyngiad o 653 (96%) o ran aelodaeth mewn hanner canrif bron yn anghredadwy.

Capeli cynulleidfaol Brynman

Nôl yn 1975 roedd 1,127 o aelodau ar y llyfrau yn y pedwar capel cynulleidfaol ym Mrynman (Cyfundeb Gorllewin Morgannwg). Erbyn 2025 mae 112 aelod mewn tair eglwys, sy'n lleihad o 1,015 (90%) yn yr aelodaeth.

Capeli Penmaenmawr (Cyfundeb Gogledd Arfon)

Yn 1963 symodd ein teulu o Ddolgarrog, Dyffryn Conwy i Benmaenmawr ac ymaelodi yng nghapel cartrefol y Tabernacl. Roedd cyfanswm o 269 o aelodau rhwng Horeb, Salem a'r Tabernacl a dau weinidog yn fugeiliaid yno. Erbyn hyn, mae'r tair eglwys wedi eu datgorffori.

Salem, Llanbedr y Cennin (Cyfundeb Gogledd Arfon)

Yng nghapel Salem, Llanbedr y Cennin ges i fy meddyddio a'm derbyn yn aelod. Y Parchg Dewi Jones, ewyrth y Parchedigion Gwyndaf Jones a'i frawd Euros Wyn a'u cefnder John Lewis Jones. Roedd yn hyfryd dros ben bod y pedwar ohonom yn gyd-efrydwyr yng Ngholeg Bala-Bangor (1967-74).

Roedd 100 aelod yn Salem, Llanbedr y Cennin yn 1975 ac mae 27 ymhlith y gweddill ffyddlon. Mae hyn yn lleihad o 73 (73%) yn yr aelodaeth.

Capeli Caerdydd

Ar ôl symud o Frynman yn 1982, daethom yn aelodau yn eglwys groesawgar Minny St, Caerdydd. Y gweinidog annwyl, ar y pryd, oedd y Parchg D. T. Evans.


Roedd pedwar capel cynulleidfaol ar agor yn y ddinas fel y gwelir yng nghofnodion 1975 y *Llyfr Gwyn*. Cyfanswm yr aelodaeth yn 1975 oedd 792. Ebeneser a Minny Street sydd ar ôl gyda chyfanswm aelodaeth o 374 sy'n lleihad o 418 (53%).

Diddorol iawn fydd derbyn dadansoddiad o ddata aelodaeth y capeli ble rydych yn aelod neu ble buoch yn aelod. Cysylltwch â mi.

Gwilym Wyn

serenagwill@btinternet.com

CANRAN Y LLEIHAD MEWN 50 MLYNEDD



Cymhariaeth rhwng 1975 a 2025 • Eglwysy, aelodau a gweinidogion